

DA PLUOG

LLADD A PHROSESU AR RADDFA FECHAN YN Y
WELSH POULTRY CENTRE

ARDDANGOSIAD
FFERM GAN CALU
TAFLEN
WYBODAETH
Hydref 2009



Ar 22 Hydref fe wnaeth Steve Merritt gynnal gweithdy CALU ar ei fferm (The Welsh Poultry Centre) yn Llanpumsaint. Mae'r daflen hon wedi'i seilio ar yr hyn drafodwyd yn y gweithdy hwnnw.

RHEOLIADAU

Mae'n rhaid i chi gael trwydded i ladd a phrosesu da pluog. Mae dau fath o drwydded. Gelwir y gyntaf yn drwydded 'Eithrio'. Daeth y drwydded Eithrio i fodolaeth ar ôl yr Ail Ryfel Byd i ganiatáu lladd da pluog yn dymhorol ar raddfa fechan. Swyddfa lechyd yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am y drwydded Eithrio, felly'r man cyswllt cyntaf fydd eich Awdurdod Lleol. Dan y drwydded hon caniateir i chi ladd hyd at 10,000 o adar y flwyddyn ac mae'n rhaid i chi eu gwerthu yn ardal eich awdurdod lleol neu awdurdod cyfagos. Bydd eich Awdurdod Lleol yn anfon Swyddog lechyd yr Amgylchedd i archwilio'r cyfleusterau yn ddirybudd bob dwy i dair blynedd. Dan y drwydded hon dim ond adar sy'n eiddo i chi y cewch eu lladd ac mae'n rhaid i chi eu gwerthu'n uniongyrchol i'r cwsmer.

Os ydych yn meddwl am brosesu mwy na 10,000 o adar y flwyddyn ac/neu eisiau lladd adar ar gyfer cynhyrchwyr eraill, yna bydd arnoch angen trwydded Gwasanaeth Hylendid Cig /Meat Hygiene Service Licence (MHS). Dan y drwydded hon mae'n rhaid i chi sicrhau bod milfeddyg wedi'i drwyddedu gyda'r MHS yn bresennol pan fydd unrhyw aderyn yn cael ei ladd neu ei ddiberfeddu. Mae'n rhaid i chi dalu i'r milfeddyg (tua £60 yr awr) ac mae'n rhaid i chi archebu gwasanaeth y milfeddyg fis ymlaen llaw. Gyda'r drwydded MHS mae yna lawer mwy o reoliadau y mae'n rhaid i chi gydymffurfio â hwy na chyda'r drwydded Eithrio. Mae'n rhaid i nifer yr adar a brosesir fod yn filoedd lawer i'r drwydded hon fod yn werth ei chael yn ariannol. Yn achos y ddwy drwydded bydd rhaid i Filfeddyg lechyd Anifeiliaid archwilio a chymeradwyo'r eiddo.

Cyn sefydlu cyfleusterau lladd bydd angen i chi gysylltu â'ch swyddfa gynllunio leol i weld a ydych angen **caniatâd cynllunio**. Bydd hynny'n dibynnu ar p'un a fyddwch yn codi adeilad newydd neu'n newid defnydd hen un.

OFFER

Y peth gorau yw dal yr adar yn y nos. Maent yn haws eu dal ar ôl iddi dywyllu a gellir eu cadw yn y lladd-dy mewn cretiau heb fwyd na diod. Yn ôl y gyfraith ni ddylid eu cadw am fwy na 12 awr heb fwyd na diod. Nid yw hyn yn amharu ar yr adar gan nad ydynt yn bwyta ac yfed yn y nos beth bynnag fel rheol, ac mae'n gwneud y gwaith diberfeddu'n llai stomplyd. Yna gellir lladd yr adar y peth cyntaf yn y bore. Pan mae'r adar yn fyw mae'n rhaid eu trin yn ofalus gan y gallant gleisio'n rhwydd, yn arbennig ieir. Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i adar gael eu lladd heb iddynt dioddef. Y ffordd fwyaf trugarog o'u lladd yw gyda gwn syfrdanu ac yna torri eu gyddfau. I ddefnyddio gwn syfrdanu mae'n rhaid i chi gael trwydded bwrpasol. Sylwch bod y trwyddedau hyn yn benodol iawn ar gyfer y rhywogaethau y cewch eu lladd a'r offer y gellwch ei ddefnyddio. Ar hyn o bryd mae'r trwyddedau hyn yn para am oes, ond bydd y deddfau'n newid yn 2013.

Yn y Welsh Poultry Centre caiff yr adar eu syfrdanu gyda gwn syfrdanu 110folt (mae gynau o'r fath yn costio tua £200 – £250) sy'n eu gwneud yn anymwybodol yn syth. Yna torrir eu gyddfau ac mae'r adar yn cael eu rhoi mewn conau i adael i'r gwaed lifo allan; maent yn cymryd tua munud i waedu'n lân. Caiff y gwaed ei gadw ar gyfer ei nôl a chael gwared arno. Unwaith y mae'r aderyn wedi ei ladd a'i waedu mae'n rhaid i bluo. Yn dibynnu a yw'n aderyn dŵr ai peidio caiff ei bluo naill ai'n sych neu'n wlyb. Pluir ieir a thyrswyn yn wlyb; yn gyntaf fe'u rhoddir mewn tanc sgaldian, chwech ar y tro. Cedwir



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig; Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Centre for Alternative Land Use
Canolfan Ddefnydd Tir Amgen



Llywodraeth Cymru
Welsh Assembly Government

y tanc ar dymheredd cyson o tua 52- 54°C. Trochir yr adar yn y dŵr am 90 eiliad i sicrhau bod y dŵr yn cyrraedd pob rhan o'r aderyn. O'r tanc sgaldian mae'r adar yn mynd i'r bowlen bluo am tua 30 eiliad. Mae bowlen bluo ail law, wedi'i hadnewyddu, yn costio oddeutu £2,000. Mae'r offer hwn yn tynnu bron y cyfan o'r plu i ffwrdd. Bydd rhai plu ar ôl ar yr adenydd a gellir tynnu'r rhain â llaw neu gyda pheiriant gorffen.

Rhaid i adar dŵr gael eu pluo'n sych. Mae angen cryn ymarfer i feistrolï'r dasg o bluo sych ond, unwaith y mae rhywun yn fedrus ynnddi, gellir pluo 40 o adar yr awr. Caiff yr aderyn ei ddal tra bo platiau metel yn tynnu'r plu ac yna mae ffan yn eu sugno i ffwrdd a'u gollwng i sach hesian. Ni fydd y pluwr sych yn tynnu'r plu i gyd, bydd rhai plu a manblu ar ôl a thynnir y rhain yn y tanc cwyr. Trochir yr adar yn y cwyr a gedwir ar 85°C; yna, yn dibynnu ar fath y cwyr, caiff naill ai ei bilio neu ei grafu oddi ar yr aderyn. Gellir adfer y cwyr o'r tanc drwy ei hidlo drwy sach hesian. Mae tanc cwyr ail law wedi'i adnewyddu yn costio tua £500.

Unwaith y byddant wedi'u pluo caiff yr adar eu hongian ar ffrâm A a'u symud i'r lle diberfeddu. Dan y drwydded Eithrio a'r drwydded MHS ni ellwch ladd a diberfeddu adar yn yr un lle. Caiff yr adar eu hongian i fyny a'u diberfeddu dros gafn dur gwrthstaen. Mae'r perfedd yn syrthio i fwced a'u cadw nes daw rhywun i'w nôl a chael gwared arnynt.

Os gadewir yr adar i hongian, gwneir hyn mewn oergell sydd ar wahân i'r cynnyrch gorffenedig. Os yw'r adar i gael eu torri mae angen iddynt fod yn oer i ddechrau i wneud hynny'n haws. Mae angen i'r oergell lle caiff yr adar eu hongian nid yn unig fedru cadw'r adar yn oer ond hefyd ddod â thymheredd llawer o gyrrff cynnes i lawr yn gyflym. Mae'n arfer da i adael i'r cyrrff oeri cyn eu rhoi yn yr oergell er mwyn osgoi cyddwysiad.

HYLENDID

Mae safon uchel o lanweithdra a hylendid mewn manau lladd yn hanfodol. Mae angen rhediad yn llawr y lladd-dy, fel bod yr holl wastraff yn mynd i un pen – y pen budr. Daw'r adar byw i mewn yn y pen budr ac yna maent yn symud i fyny'r llinell gynhyrchu i'r pen glân uwch, lle cedwir yr adar marw yn yr oergelloedd. Rhaid i lorïau a walïau fod yn hawdd eu golchi; dylid defnyddio cladin plastig neu baent resin i'r diben hwn. Rhaid i bopeth gael ei olchi gyda dŵr dan bwysau a'i lanhau gydag ager ar ddiwedd pob diwrnod. Mae glanhawr ager yn glanhau a diheintio yr un pryd. Os ydych yn gynhyrchwr organig mae glanhau gydag ager yn golygu y gellwch osgoi'r glanedyddion cemegol y mae cynhyrchwyr confensiynol yn eu defnyddio i ddiheintio eu cyfleusterau.

GWASTRAFF

Caiff gwastraff da pluog ei roi yn nosbarth tri – sgil-gynnyrch risg isel. Mae'n rhaid cael gwared ar yr holl wastraff, yn cynnwys y gwaed a'r plu, yn unol â rheoliadau'r Awdurdod Lleol. I gael gwared ar wastraff ar y safle, bydd arnoch angen llosgwr. Mae'r peiriannau hyn yn ddrud i'w prynu a'u rhedeg, felly mae'n rhatach a haws i drefnu i gwmni cael gwared ar wastraff ddod i nôl eich gwastraff. Os nad ydych yn gwybod am gwmni o'r fath, holwch eich cigydd lleol pwy sy'n nôl eu gwastraff hwy. Rhaid i holl ddŵr gwastraff hefyd gael ei gasglu a chael gwared arno.

Os ydych yn meddwl sefydlu darpariaeth ar gyfer lladd a phrosesu da pluog ar raddfa fechan, cysylltwch â'ch awdurdod lleol ac â Llywodraeth y Cynulliad i weld pa help a chyngror sydd i'w cael.

DARLLEN PELLACH/FFYNONELLAU GWYBODAETH

www.poultrysite.com

www.poultry.uk.com

www.defra.gov.uk/animalh/welfare/farmed/slaughter/guidance.htm

www.hsa.org.uk